YSGOL GARTH OLWG

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni

Tymor yr Hydref 2023

Rhagair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Hon oedd y flwyddyn academaidd gyntaf i'r ysgol weithredu'n ddirwystr gan Covid ers i ni agor fel Ysgol Garth Olwg, ysgol 3-19, ym mis Medi 2019.

Mae cymaint wedi digwydd ers y seremoni agoriadol. Mae wedi bod yn gyfnod o drawsnewid ac addasu i bob un ohonom, wrth inni ymdrin yn gyntaf â Covid ac yna agor i'r byd ehangach. Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru a'r Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd yn weithredol ar draws yr ysgol. Hoffwn dalu teyrnged i staff a Thîm Arwain yr ysgol am y ffordd y maent wedi ymdopi â chymaint o newid dros gyfnod mor gymharol fyr. Fel arfer, rydym ni fel Llywodraethwyr wedi bod yno i gefnogi a, phan fo angen, i gynnig her wrth i ni gydweithio gyda'n gilydd er lles ein disgyblion.

Rydym wrth ein bodd gyda'r cyfleoedd y mae'r strwythur ysgolion 3-19 yn eu darparu ar gyfer cydweithio ar draws ystod oedran yr ysgol. Mae rhai disgyblion yr Ysgol Hŷn yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol ac wedi sefydlu mentora ar draws grwpiau blwyddyn eraill. Mae hyn yn galluogi ein disgyblion i gefnogi, annog a helpu ei gilydd.

Ym mis Mawrth cawsom ymweliad gan dîm cyfeillgar a chwilfrydig o Estyn. Roedd yr arolygwyr wedi mwynhau eu hymweliad a chawsom ein calonogi gan eu hadroddiad sydd ar gael ar wefan yr ysgol. Rydym i gyd yn cydweithio gyda'n gilydd i sicrhau ein bod yn ymateb i'r argymhellion.

Mae'r Corff Llywodraethol wedi parhau i gyfarfod a chynnal ei fusnes drwy gyfuniad o gyfarfodydd rhithiol ac wyneb yn wyneb, a chymeraf y cyfle i ddiolch i'm cyd lywodraethwyr am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb. Rydym yn benderfynol o barhau i gydweithio fel un gymuned i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'n holl ddisgyblion dros y blynyddoedd nesaf.

Julie Barton
Cadeirydd y Llywodraethwyr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Corff Llywodraethol Ysgol Garth Olwg

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol wrth gyflawni ei swyddogaethau ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf.

Clerc i'r Corff Llywodraethol

Y Clerc i'r Corff Llywodraethol yw'r Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr, sef Anneli Hunt, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ.

Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Cadeirydd y Corff Llywodraethol yw Ms Julie Barton d/o Ysgol Garth Olwg, Y Brif Ffordd Pentre'r Eglwys, CF38 1DX.

Aelodau'r Corff Llywodraethol

Mae'r bobl ganlynol yn aelodau o'r Corff Llywodraethol ar hyn o bryd.

Enw	Categori Llywodraethwr	Penodwyd Gan	Dyddiad Ymddeol
Julie Barton Alex Harden Ray Butler Graham Stacey Rebecca Villis	**AALl**	**Aelodau'r Cyngor**	31.8.27 i bawb
Heather Lloyd-Jones Sam Rosie Richard Martin Sioned Geraint Anna Spicer	**Llywodraethwyr Cymunedol**	**Corff Llywodraethol**	15.9.26 10.10.27 30.11.27 30.11.27 30.11.27
Iestyn Morris Gwion Evans Kathryn Gwyn Jason Thomas Jessica Jenkins Hannah Bird	**Rhiant**	**Rhieni**	8.2.26 8.2.26 7.11.27 7.11.27 7.11.27 7.11.27
Dylan Hughes Laura Vye	**Athro**	**Staff Addysgu**	16.2.26 25.9.27
Alyson Samuel	**Staff**	**Staff Nad Ydynt yn Addysgu**	9.11.27
Trystan Edwards	**Prifathro**		

Pan fydd wedi'i sefydlu'n llawn, mae'r corff llywodraethol yn cynnwys y canlynol:

Cynrychiolwyr yr AALl	5
Rhiant Lywodraethwyr	6
Cynrychiolydd Staff	1
Pennaeth	1

Llywodraethwyr Cymunedol	5
Athro Lywodraethwr / Lywodraethwyr	2
Is-Awdurdod (os yn berthnasol)	0
Cyfanswm	20

Treuliau Llywodraethwyr

Yn ystod y flwyddyn 2022/2023, ni thalwyd treuliau i unrhyw lywodraethwyr am eu gwaith i'r ysgol, ac nid oedd costau teithio chwaith o ganlyniad i'w gweithgareddau ar ran yr ysgol.

Penderfyniadau

Ni phasiwyd unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

Ethol Rhiant Lywodraethwyr

Cynhelir etholiad nesaf rhiant lywodraethwyr ym mis Chwefror 2026.
Fodd bynnag, os bydd unrhyw Riant Lywodraethwr/Lywodraethwyr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad hwn, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal etholiad ar yr adeg briodol.

Data ar Berfformiad yr Ysgol

Crynodeb Profion Cenedlaethol (2022 -23)
National Tests Summary (2022-23)

	PROFION CENEDLAETHOL DARLLEN CYMRAEG							
	Bl.2	Bl.3	Bl.4	Bl.5	Bl.6	Bl.7	Bl.8	Bl.9
Dysgwyr <70	0	1	0	0	0	2	4	7
Dysgwyr 70-84	10	3	4	9	6	38	24	25
Dysgwyr 85-99	22	17	17	15	12	64	43	45
Dysgwyr 100-115	6	25	17	15	16	47	43	46
Dysgwyr 116-130	4	6	6	5	7	9	9	23
Cyfartaledd sgoriau cynnydd		1002	1001	999	1005	991	993	995
Dysgwyr <70	0%	2%	0%	0%	0%	1%	3%	5%
Dysgwyr 70-84	24%	6%	9 %	20%	15%	24%	20%	17%
Dysgwyr 85-99	52%	33%	39%	34%	29 %	40%	35%	31%
Dysgwyr 100-115	14%	48%	39%	34%	39%	29%	35%	32%
Dysgwyr 116-130	10%	12 %	14%	11%	17%	6%	7%	16%

<100	76%	40%	48%	55%	44%	65%	58%	53%
100+	24%	60%	52%	45%	56%	35%	42%	47%

PROFION CENEDLAETHOL DARLLEN GWEITHDREFNOL

	Bl.2	Bl.3	Bl.4	Bl.5	Bl.6	Bl.7	Bl.8	Bl.9
Dysgwyr <70	0	0	0	3	2	8	10	1
Dysgwyr 70-84	9	5	2	4	7	29	11	19
Dysgwyr 85-99	22	24	16	16	6	51	40	43
Dysgwyr 100-115	8	16	14	18	22	58	47	58
Dysgwyr 116-130	5	6	11	4	1	13	11	23
Cyfartaledd sgoriau cynnydd	953	989	1048	976	991	953	951	1011
Dysgwyr <70	0%	0%	0%	7%	5%	5%	8%	1%
Dysgwyr 70-84	20%	10%	5%	9%	18%	18%	9%	13%
Dysgwyr 85-99	50%	47%	37%	36%	16%	32%	34%	30%
Dysgwyr 100-115	18%	31%	33%	40%	58%	36%	39%	40%
Dysgwyr 116-130	12%	12%	26%	9%	3%	8%	9%	16%

<100	70%	57%	42%	51%	39%	55%	51%	44%
100+	30%	43%	58%	49%	61%	45%	49%	56%

PROFION CENEDLAETHOL DARLLEN RHESYMU

	Bl.2	Bl.3	Bl.4	Bl.5	Bl.6	Bl.7	Bl.8	Bl.9
Dysgwyr <70	12	5	4	5	3	17	12	4
Dysgwyr 70-84	7	8	5	3	3	20	16	23
Dysgwyr 85-99	44	24	10	12	6	49	22	36
Dysgwyr 100-115	10	13	12	15	20	53	43	49
Dysgwyr 116-130	1	2	7	7	7	16	26	21
Cyfartaledd sgoriau cynnydd	885	926	1005	989	1035	965	1005	1010
Dysgwyr <70	27%	10%	11%	12%	8%	11%	10%	3%
Dysgwyr 70-84	16%	16%	13%	7%	8%	13%	13%	17%
Dysgwyr 85-99	31%	43%	26%	29%	15%	32%	18%	27%
Dysgwyr 100-115	24%	27%	32%	36%	51%	34%	36%	37%
Dysgwyr 116-130	2%	4%	18%	17%	18%	10%	22%	13%
Dysgwyr 85-99	55%	40%	41%	20%	17.%	37%	34%	28%
Dysgwyr 100-	74%	69%	50%	48%	31%	56%	41%	47%
Dysgwyr 116-	26%	31%	50%	52%	69%	44%	58%	53%

<100	77%	54%	51%	27%	27%	49%	50%	43%
100+	23%	46%	49%	73%	73%	51%	50%	57%

Crynodeb Pynciau Craidd – Canlyniadau Diwedd CA3 (2022 -23)
Core Subject Summary - End of KS3 Results (2022-23)

	Cymraeg Welsh	Saesneg English	Mathemateg Mathematics	Gwyddoniaeth Science
Lefel 2+ Level 2+	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%
Lefel 3+ Level 3+	100.00%	100.00%	100.00%	100.00%
Lefel 4+ Level 4+	97.99%	100.00%	99.33%	93.29%
Lefel 5+ Level 5+	81.21%	86.58%	86.58%	64.43%
Lefel 6+ Level 6+	38.26%	48.32%	55.03%	42.95%
Lefel 7+ Level 7+	2.68%	8.05%	15.44%	8.05%

Canlyniadau TGAU a Galwedigaethol (2022 -23)
GCSE and Vocational Results (2022-23)

Canlyniadau 2023 Results 2023		**Teulu *Family***	**Awd. Lleol *Local Auth.***	**Cymru *Wales***
A* - A	19.10%			21.30%
A* - C	76.70%			64.50%
A* - E	87.40%			87.50%
Sgôr CAP 9 / Capped 9 Score	369.9	371.4	362.9	356.5
Sgôr Llythrennedd / Literacy Score	43.4	42.7	29.1	39.7
Sgôr Rhifedd / Numeracy Score	39.4	38.1	36.5	37.1
Sgôr Gwyddoniaeth / Science Score	38.9	38.5	36.4	36.9

Canlyniadau Lefel A a Galwedigaethol (2022 -23)
A Level and Vocational Results (2022-23)

Canlyniadau 2023 Results 2023		Cymru Wales
A* - A	26.50%	34.00%
A* - B	57.10%	57.90%
A* - C	82.10%	78.90%
A* - E	98.00%	97.50%
Trothwy L3 Threshold	95.77%	
Sgôr Pwyntiau / Points Score	700.83	

Prosbectws yr Ysgol

Mae copi o brosbectws yr ysgol ar gael drwy wefan yr ysgol.

Cynllun Datblygu Ysgol

Mae'r Pennaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth, ar y cyd â'r corff llywodraethol, yn gyfrifol am lunio'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn nodi i ba gyfeiriad y bydd yr ysgol yn mynd wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chodi safonau ar draws yr ysgol. Caiff y cynllun ei fonitro a'i ddiwygio'n rheolaidd i ystyried y cynnydd a wnaed, ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm.
Bydd y Cynllun Datblygu Ysgol blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan lywodraethwyr, a bydd staff yn ei roi ar waith. Mae'r blaenoriaethau fel a ganlyn:

1. Meithrin Agweddau Cadarnhaol at Ddysgu
2. Codi Safonau
3. Datblygu Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Defnyddio'r Gymraeg – Cyfathrebu

Mae'r ysgol hon yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Caiff gwersi a gweithgareddau eraill yr ysgol eu cyfleu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfathrebir â rhieni a'r gymuned ehangach yn ddwyieithog.

Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau yn ystod Blwyddyn Academaidd 2023/2024

Tymor	Dechrau	Hanner tymor		Gorffen
		Dechrau	Gorffen	
Hydref 2023	4/9/23	30/10/23	3/11/23	22/12/23
Gwanwyn 2024	8/1/24	12/2/24	16/2/24	22/3/24
Haf 2024	8/4/24	27/5/24	31/5/24	22/7/24

Bydd *dydd Llun, 4 Medi 2023 yn ddiwrnod HMS dynodedig ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan Awdurdod Lleol. Bydd y pum diwrnod HMS arall yn cael eu cymryd yn unol â dewis pob ysgol unigol yn dilyn ymgynghoriad priodol â staff.

Diwrnodau arwyddocaol:

Y Nadolig: Dydd Llun 25 Rhagfyr 2023
Y Pasg: Dydd Gwener y Groglith, 29 Mawrth 2024
Dydd Llun y Pasg, 1 Ebrill 2024
Gwyliau Banc Mai: Dydd Llun, 6 Mai 2024

Diwrnodau Dysgu Proffesiynol

4.9.23
5.9.23
6.10.23
20.11.23
24.6.24
22.7.24

Ysgolion Bro

Ysgol fro yw ysgol sydd: 'yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau', yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys addysg oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Rydym yn ffodus ein bod wedi'n lleoli ar Gampws Garth Olwg, lle rydym yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Gydol Oes, sydd yn cynnig ystod eang o gyrsiau a gweithgareddau wedi'u hanelu at bob ystod oedran.

Nid prosiect neu fenter tymor byr yn unig yw datblygu ysgolion bro, ond cyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau weithio gyda'i gilydd mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifanc ac oedolion yn y dyfodol.

Adolygu Polisïau'r Ysgol

Fel Corff Llywodraethol rydym yn gweithio trwy ddiweddaru ein holl bolisïau, gan sicrhau, yn y lle cyntaf, bod pob polisi statudol pwysig yn ei le. Gellir dod o hyd i bolisïau ar wefan yr ysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae Polisi'r Ysgol ar gyfer Asesu a Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

Mae Polisi'r Ysgol ar gyfer nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyson â gofynion Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021.

Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) yr ysgol yn gweithio'n agos gyda phob aelod arall o staff i sicrhau bod proffiliau un tudalen gyda thargedau a Chynlluniau Datblygu Unigol yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith i ddiwallu anghenion disgyblion, yn briodol i'r rheiny sydd eu hangen.

Mae'r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn cysylltu â phob aelod o staff, i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a'i asesu'n rheolaidd, a sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial.

Ar ddiwedd y flwyddyn academaidd bresennol:

- roedd 24 o ddisgyblion ar y gofrestr ADY ac â Chynllun Datblygu Unigol.
- Roedd 22 o ddisgyblion ar y gofrestr AAA, gydag 8 ohonynt â datganiad o anghenion addysgiadol.

Mae'r bil ADY newydd yn gyrru'r ffordd rydym yn gweithio fel ysgol, ac rydym ni'n gwneud cynnydd da yn newid ein harferion gweithio i sicrhau eu bod yn gydnaws â disgwyliadau newydd. Mae'r CADY wedi diweddaru staff a rhieni yn rheolaidd o'r newidiadau, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd person-ganolog ar gyfer pob plentyn sydd ar y gofrestr AAA ac ADY, ac wedi sicrhau bod gan bob plentyn ddogfen proffil un-tudalen. Mae gwefan ADY i staff yn rhannu'r holl wybodaeth angenrheidiol am y disgyblion, ac mae hefyd adran ADY ar wefan yr ysgol, gyda gwybodaeth i rieni ar ADY a'r Cod Ymarfer ADY.

Mynediad ar gyfer Disgyblion Anabl

Mae'r corff llywodraethol yn ystyriol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) 1995 a Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2005 yn ei weithredoedd a'i weithgareddau dyddiol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol ac (os byddant yn dymuno) mewn gweithgareddau fel clybiau ar ôl yr ysgol, digwyddiadau hamdden / chwaraeon ac ymweliadau addysgol (pan fyddant yn eu lle, a phan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn caniatáu iddynt ailddechrau). Mae pob agwedd ar hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio a'r cynllun hygyrchedd.

Mae'r Awdurdod wedi rhoi Strategaeth Hygyrchedd ar waith, ac yn unol â'r strategaeth hon, cynhaliwyd archwiliad o safle'r ysgol, fel rhan o frîff ar draws yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posibl, a gwella'r mynediad i'r ysgol (yn y pen draw).

Gwneuthuriad yr Adeilad a Darpariaeth Toiledau

Mae gennym ddarpariaeth ddigonol o doiledau yn ein holl adeiladau gan gynnwys darpariaeth niwtral o ran rhywedd. Caiff y toiledau eu glanhau o leiaf unwaith y dydd yn ystod diwrnod ysgol arferol, ac mae tîm o cynnal a chadw ar gael trwy gydol y dydd pe bai angen glanhau pellach.

Gosod Targedau

Mae gwybodaeth am weithredu ac adolygu strategaethau a thargedau'r ysgol wedi ei chofnodi'n fanwl yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Rydym yn canolbwyntio o hyd ar sicrhau bod ein disgyblion yn cyflawni yn unol â'u potensial.

Data ar Gyrchfannau

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r data ar gyrchfannau ar gyfer dysgwyr ôl-18.

Cyrchfan	Myfyrwyr (%)
Prifysgol	72
Cyflogaeth	13
Blwyddyn i Ffwrdd / Cyflogaeth ran-amser	1
Prentisiaethau	10
Arall	4

Gwybodaeth am Bresenoldeb

Rydym ni'n gwbl glir fod disgyblion yn dysgu orau pan fyddant yn yr ysgol ac mae'n wir bod mwyafrif ein dysgwyr eisiau bod yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r strwythur a'r fframwaith cymdeithasol mae'n ei ddarparu, yn enwedig ar ôl y pandemig sydd yn parhau i gael effaith.

Ffigyrau oedran ysgol gorfodol (22-23);

Period: 05/09/2022 to 21/07/2023

Scope: Year Group R+1+2+3+4+5+6+9+10+11+7+8 Number of Sessions

Group	Presents	AEA	Authorised Absences	Unauthorised Absences	Possible	% Attend
Year R	16789	48	832	187	17856	94.3
Year 1	18942	58	819	217	20036	94.8
Year 2	16037	52	757	266	17112	94.0
Year 3	18164	235	688	153	19240	95.6
Year 4	15147	348	651	198	16344	94.8
Year 5	15134	394	804	178	16510	94.1
Year 6	13901	715	686	322	15624	93.5
Year 9	47777	1509	3452	3040	55778	88.4
Year 10	47769	3450	4282	4175	59676	85.8
Year 11	34222	1511	3873	7928	47534	75.2
Year 7	51766	2551	3624	1703	59644	91.1
Year 8	39443	1910	2456	1409	45218	91.5
Totals	335091	12781	22924	19776	390572	89.1

Trefniadau Derbyn / Pontio

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion Eglwys lle mae corff llywodraethol yr ysgol yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Felly, mae trefniadau derbyn yr ysgol yn gweithredu yn unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyn i ysgolion, sydd wedi'i gynnwys yn y cyhoeddiad Dechrau'r Ysgol (Starting School). Mae'r llyfr ar gael i rieni pan fyddant yn gwneud cais i dderbyn eu plentyn i'r ysgol. Hefyd, gellir gweld cynnwys y llyfr hwn ar-lein ar wefan yr Awdurdod, sef www.rctcbc.gov.uk.

Mae cynllun pontio yr ysgol ar ein gwefan ysgol https://sites.google.com/hwbcymru.net/gartholwgcanol/pontio-ysgol-garth-olwg.

Gweithgareddau Cyfoethogi

Caiff amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol eu darparu, yn cynnwys ymweliadau addysgol, cystadlaethau, a theithiau ysgol. Rydym wedi gosod Forms fel rhan o'r ffurflenni absennoldeb er mwyn gallu cadw cyfnod ysgol gyfan gan dim ond cyfran bach o'r hyn sydd wedi digwydd sydd wedi nodi isod.
Dyma rhai o'r profiadau cyfoethogi sydd wedi cynnal yn ystod y flwyddyn academaidd.

- Criw o ddisgyblion MATH yn dysgu gemau ail iaith i ddisgyblion criw Cymraeg Ysgol Blessed, Merthyr.
- Seminar Digidol gyda Ruth Posner (Goreoeswr yr Holocost)
- Cynllun "Lessons From Auschwitz" gan HET i ddisgyblion Bl.12 (Ymweliad i Auschwitz).
- Arddangosfa Met Caerdydd - Arddangos gwaith Celf a Dylunio (Disgyblion Bl.11-13)
- Siarad Cyhoeddus y Rotari
- Gweithdai amrywiol gan yr Adran Gerdd e.e Samba gan Mark Hibbert fel rhan o Thema
- Cerddoriaeth y Byd.
- 'When Coal was King!' Seminar Digidol i ddisgyblion MATh y Dyniaethau.
- Prosiect Dosbarth Meistr Abertawe "Cofebau" gyda'r Ysgol Ganol.
- Cynhaliwyd cystadleuaeth gemau Mathemateg Ysgolion Partneriaeth Addysg Pontypridd i ddisgyblion blwyddyn 6.
- Mynychodd disgyblion Blwyddyn 7-9 ddigwyddiadau byw a rhithiol Gwŷl y Gelli.
- Reading Scholars – Disgyblion Bl.10
- Her darllen blwyddyn 5 a 6 y clwstwr cyfan. Gwobrau i'r disgyblion oedd wedi darllen y nifer fwyaf o dudalennau mewn pythefnos.
- Aneirin Karadog yn dod mewn i drafod ei gerdd Gweld y Gorwel gyda disgyblion MATh Blwyddyn 10.
- Ymweliadau amrywiol i brifysgolion o flwyddyn 10-13.

Bu rhai o'n disgyblion MATh yn llwyddiannus yn yr heriau a osodwyd gan Rwydwaith Seren Sylfaen ar y cyd ag OpenLearn blwyddyn diwethaf.

Llwyddiannau Chwaraeon

Cafwyd nifer o lwyddiannau chwaraeon eleni. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion yn cynrychioli Cymru a thimau Rhanbarthol yn y chwaraeon canlynol:

- Cynrychiolydd rhaglen dalent Athletau'r DU
- Pêl-droed Merched dan 16 Cymru
- Clybiau Bechgyn Undeb Rygbi Cymru dan 16 a dan 18 oed
- Rygbi Cynghrair bechgyn dan 15 Cymru
- Cynrychiolwyr Pêl-fasged Cymru dan 16 a Dan 18
- Cynrychiolwyr Gymnasteg dan 16 a 14 oed
- Pencampwyr Athletau Cymoedd Morgannwg
- Nifer o gynrychiolwyr rhanbarthol ar draws Rygbi, Pêl-droed, Pêl-rwyd, Nofio a chwaraeon eraill
- Chwaraewyr Academi Pêl-droed Dan 16 ar gyfer Dinas Caerdydd a dinas Abertawe
- Nifer o chwaraewyr Clwb Pêl-droed Merched Dinas Caerdydd
- Ysgoloriaethau Rygbi i Millfield a Choleg Crist, Aberhonddu
- Nifer o redwyr Traws Gwlad o gymoedd Morgannwg Bl7-11

Bwyta'n Iach

Yn Ysgol Garth Olwg, rydym yn hybu bwyta'n iach trwy annog plant i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl y bore, a chinio iach yn ystod amser cinio.

Rydym ni'n addysgu plant am bwysigrwydd diet cytbwys trwy wersi ABCh, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg, a thrwy ddigwyddiadau thema trwy gydol y flwyddyn yn ogystal.

Sut caiff yr Ysgol ei Hariannu?

Mae'r ALl yn darparu cyllideb i'r ysgol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer y plant ar y gofrestr ADY, gofod llawr yn yr ysgol, ac ati, ond y prif ffactor yw niferoedd y disgyblion yn yr ysgol. Yr enw ar y cyllid a dderbynnir gan yr ALl yw'r Gyllideb Ysgol Ddirprwyedig.

Wedi i'r ysgol dderbyn y gyllideb ysgol ddirprwyedig, bydd y llywodraethwyr yn penderfynu wedyn sut y dylid dyrannu'r arian hwn, ac yn cytuno ar gyllideb a ddilynir am y flwyddyn. Caiff y cyfrif hwn ei fonitro'n barhaus gan y Pennaeth, y Rheolwr Cyllid, yr ALl ac Is-bwyllgor y Corff Llywodraethol yn eu cyfarfodydd rheolaidd, ynghyd â diweddariadau tymhorol i'r Corff Llywodraethol.

Datganiad Ariannol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2022-23

	Disgrifiad	**£**
Cyflog	Athrawon / APT / Gweithwyr llafuriol	£ 5,037,760.00
Adeilad	Cyfleustodau / Cynnal a chadw / Dŵr	£ 595,160.00
Ardrethi		£ 161,516.00
Cyflenwadau a Gwasanaethau		£ 1,036,951.00
Eraill	Prydau Ysgol / Gwisg / Trafnidiaeth	£ 47,915.00
		£ 6,879,302.00
Incwm sylfaenol a grantiau	Gwybodaeth sylfaenol a grantiau	£ 1,016,219.00
	Cyfanswm y gwariant namyn yr incwm = Cyfanswm y gwariant	**£ 5,863,083.00**
	Cyfanswm y cyllid ar gael namyn y gwariant (Dwyn y ffigur ymlaen i 2021-22)	**£ 751,395.00**
Dyraniad Fformiwla	Dyraniad Disgyblion ac ôl 16 oed	£ 5,772,047.00
Ychwanegiad i'r Fformiwla	Ardrethi /Adolygol	£ 148,976 .00
Dwyn ymlaen 2021-22		£ 693,455 .00
		£ 6,614,478.00